Adran Gwaith
a Phensiynau

Adolygiad annibynnol i effaith ar ganlyniadau cyflogaeth o fod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol, a gordewdra

Galwad am dystiolaeth

Gorffennaf 2015

Cynnwys

Rhagair gan yr Athro Fonesig Carol Black 3

Cyflwyniad 4

Adolygiad annibynnol: cylch gorchwyl 4

Yr Alwad am Dystiolaeth 6

Ar gyfer pwy mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i anelu? 6

Pwrpas 6

Cwmpas 6

Parhad 6

Pam fod angen newid 7

Cyflyrau hirdymor a diweithdra 7

Yr effaith ehangach 8

Cwestiynau’r alwad am dystiolaeth 10

Trefniadau’r alwad am dystiolaeth 12

Sut i ymateb 12

Fformatau amgen 12

Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio 13

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 13

Rhagair gan yr Athro Fonesig Carol Black

Gofynnwyd i mi gynnal yr adolygiad annibynnol hwn i'r heriau a wynebir gan unigolion sy'n chwilio am, yn dychwelyd i, ac aros mewn gwaith pan fyddant yn gaeth i alcohol neu gyffuriau, neu’n ordew. Gall y cyflyrau hyn gael effaith sylweddol ar allu person i ymgymryd â chyflogaeth gwerth chweil a’i gynnal.

Wrth gynnal yr adolygiad rwyf yn awyddus i ymgynghori'n eang i glywed a dysgu mwy o amrywiaeth o wahanol safbwyntiau. Yr alwad hon am dystiolaeth, sy’n gysylltiedig â lansiad ffurfiol yr Adolygiad, yw'r cam cyntaf. Bydd yn bwysig i nodi’r y triniaethau a rhaglenni fwyaf cost-effeithiol yma ac yn rhyngwladol; a sut mae gwasanaethau cymorth cyflogaeth, gofal iechyd, a'r system fudd-daliadau, yn rhyngweithio i ddarparu cefnogaeth. Rwyf hefyd yn awyddus i ddeall safbwynt y bobl sy'n profi’r cyflyrau hyn, a’u taith drwy'r systemau gofal iechyd a budd-dal. Bydd cyflogwyr hefyd yn cael golwg ar eu rôl wrth gefnogi’r unigolion hyn mewn cyflogaeth.

Felly, fy ngobaith yw y gallwn gyflwyno dadansoddiad trylwyr o'r ffyrdd y gall pobl yr effeithir arnynt gan y cyflyrau hyn cael ei gefnogi’n well mewn gwaith.

Carol Black

Cyflwyniad

Mae'r llywodraeth wedi comisiynu'r Athro Fonesig Carol Black i gynnal adolygiad annibynnol i'r ffordd orau i gefnogi hawlwyr budd-daliadau sydd â chyflyrau y gellir eu trin, fel gordewdra neu'n gaeth i gyffuriau ac alcohol, yn ôl i waith. Bydd yr adolygiad yn ystyried y dystiolaeth a rhoi dadansoddiad trylwyr i'r llywodraeth o'r dewisiadau sydd ar gael i gefnogi mwy o bobl sy'n dioddef o gyflyrau y gellir eu trin yn y hirdymor yn ôl i waith.

Bydd y cais am dystiolaeth yn un o nifer o ddulliau a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth. Bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn cael ei defnyddio i lywio adroddiad annibynnol terfynol ar gyfer y llywodraeth.

Adolygiad annibynnol: cylch gorchwyl

Diben yr adolygiad yw ystyried y ffordd orau o gefnogi'r rhai sy'n dioddef o gyflyrau hirdymor ac eto y gellir eu trin yn ôl i'r gwaith neu aros mewn gwaith.

Bydd yr adolygiad yn bennaf yn ystyried unigolion sydd â'r cyflyrau hirdymor y gellir eu trin canlynol: gordewdra, dibyniaeth ar alcohol a dibyniaeth ar gyffuriau. Bydd yn ystyried anghenion cyfannol yr unigolion hyn gan gynnwys effeithiau'r cyflyrau iechyd lluosog a rhwystrau eraill i weithio.

Nod yr adolygiad yw:

- Sefydlu'r rôl y mae'r cyflyrau y gellir eu trin o'r fath yn chwarae wrth achosi diweithdra ac amcangyfrif y gost sy'n gysylltiedig i'r Trysorlys a'r economi
- Deall nodweddion (gan gynnwys amodau sy'n gorgyffwrdd ac anfanteision eraill) unigolion a'r llwybrau maent yn cymryd drwy'r systemau gofal iechyd a lles a'r rolau a chwaraeir gan ddarparwyr a chyflogwyr yn y llwybrau hyn

- Ystyried hefyd y grwp(iau) sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn ddiwaith drwy gyflyrau y gellir eu trin yn y dyfodol a'r cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cymhellion ar gyflogwyr
- Asesu argaeledd a chost effeithiolrwydd y triniaethau ac ymyriadau i hwyluso dychwelyd i'r gwaith ar gyfer gwahanol is-grwpiau o fewn y boblogaeth yr effeithir arni
- Archwilio'r gefnogaeth a ddarperir gan y system fudd-daliadau presennol a'r cymhellion/rhwystrau a grëir, gan roi ystyriaeth lawn i'r cyfleoedd a gyflwynir drwy gyflenwi Credyd Cynhwysol yn llawn. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr achos dros gysylltu hawliadau budd-dal i gymryd triniaeth neu gymorth priodol
- Deall y system gyfan yng nghyd-destun cymaryddion rhyngwladol perthnasol a dysgu o lwyddiannau polisi tramor; gwneud argymhellion cadarn ac ymarferol wedi’u costio’n llawn ar gyfer llywodraeth gydag ystyriaeth o’r rôl a chymhellion ar ddarparwyr a chyflogwyr. Rhaid i’r argymhellion hyn cynhyrchu arbedion net i'r Trysorlys dros gyfnod o amser a gwella iechyd, lles a chyfleoedd bywyd unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt yn y dyfodol

Yr Alwad am Dystiolaeth

Ar gyfer pwy mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i anelu?

Mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i hanelu at sefydliadau ac unigolion sydd â gwybodaeth neu brofiad sy'n berthnasol i'r adolygiad. Er enghraifft, rydym yn croesawu adroddiadau unigolion sydd wedi profi’r amodau hyn neu unrhyw agweddau perthnasol o’r systemau iechyd a budd-daliadau. Rydym hefyd yn gobeithio clywed gan weithwyr proffesiynol iechyd, comisiynwyr a swyddogion penderfyniadau ar draws awdurdodau lleol, y sector cymorth cyflogaeth, gofal iechyd, a'r system fudd-daliadau. Byddai barn academyddion, elusennau neu felinau trafod sy'n gweithio ar y materion hyn fod yn werthfawr iawn. Yn olaf, ni allwn edrych ar y cwestiwn o helpu pobl yn ôl i'r gwaith, neu i aros mewn gwaith, heb glywed gan gyflogwyr a gobeithio y bydd amrywiaeth eang o gyflogwyr yn rhannu eu profiadau.

Pwrpas

Bydd yr alwad am dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio i gynorthwyo’r Fonesig Carol i ffurfio barn i helpu datblygu'r adolygiad. Bydd hi wedyn yn gwneud argymhellion i'r llywodraeth. Mae hwn yn adolygiad annibynnol, ac nid yw'n ofynnol i'r llywodraeth dderbyn unrhyw un neu bob un o'r argymhellion, a gall unrhyw argymhellion a wneir fod yn amodol ar asesiad pellach.

Cwmpas

Bydd yr alwad am dystiolaeth hon yn llywio argymhellion ar faterion cyflogaeth a lles sy'n berthnasol i Brydain Fawr ac argymhellion ar faterion iechyd sy'n berthnasol i Loegr. Fodd bynnag, byddem yn croesawu ystod eang o dystiolaeth, a dynnwyd o ffynhonelau Prydain Fawr a rhyngwladol.

Parhad

Mae cyfnod yr alwad am dystiolaeth yn dechrau ar 29 Gorffennaf ac yn parhau hyd nes dydd Gwener, 11 Medi 2015.

Pam fod angen newid

Gall fod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol, yn ogystal â gordewdra, gael effeithiau hynod niweidiol ar unigolion a'u teuluoedd, a chostau sylweddol i'r trethdalwr a'r economi. Mae'r llywodraeth yn credu nad oes digon yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl yn cael help meddygol ar gyfer materion hirdymor y gellir ei drin neu gymorth cyflogaeth arbenigol o'r fath - hyd yn oed os un neu fwy o'r amodau hyn fydd y prif reswm dros fod yn ddi-waith. Maent wedi, felly, gofyn i'r Fonesig Carol gynnal adolygiad annibynnol ar y mater hwn.

Cyflyrau hirdymor a diweithdra

Gall cyflyrau hirdymor fel bod yn gaeth i gyffuriau a dibyniaeth ar alcohol, neu ordewdra, o ddifrif effeithio ar gyfleoedd pobl o gymryd ac aros mewn gwaith sy'n rhoi cyflogaeth foddhaol. Yn Lloegr yn unig, mae ymchwil o 2008 a 2010 yn dangos bod:

- 1 o bob 15 hawlwyr budd-daliadau oedran gweithio yn ddibynnol ar gyffuriau fel heroin a chocên crac [1]
- 1 o bob 25 hawlwyr budd-daliadau oedran gweithio yn dioddef o ddibyniaeth ar alcohol [2]

Gan dybio bod y cymarebau hyn wedi aros yn gyson yn fras ers i'r ymchwil gael ei gynnal, mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod tua 280,000 o hawlwyr budd-dal oedran gweithio yn dioddef o fod yn gaeth i opiadau, a 170,000 o ddibyniaeth ar alcohol (o fis Awst 2014).

Ymhellach, ym mis Mai 2014, roedd 7,440 pobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl eu prif gyflwr anabledd oedd gordewdra (clefyd metabolig)[3]; roedd hefyd 240 hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd/Lwfans Anabledd Difrifol, a 1,540 hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.[4] Mae hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif

[1] Hay, G. and Bauld, L. (2008) *Population estimates of problematic drug users in England who access DWP benefits: A feasibility study*. Llundain: Adran Gwaith a Phensiynau (Papur Gwaith DWP Rhif 46)

[2] Hay, G. and Bauld, L. (2011) *Population estimates of alcohol misusers who access DWP benefits.* [ar-lein] Adran Gwaith a Phensiynau (Papur Gwaith DWP Rhif 94). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214391/WP94.pdf [Mynediad 03 Mehefin 2015].

[3] Nodyn: Lwfans Byw i'r Anabl – achosion sy'n cael eu talu. Adran Gwaith a Phensiynau. (2015) *Tabulation tool.* [ar-lein] Ar gael yn: http://tabulation-tool.dwp.gov.uk/100pc/tabtool.html [Mynediad 07 Gorffennaf 2015]

[4] Adran Gwaith a Phensiynau. (2015). *Statistics on IB/SDA and ESA claimants with a condition of obesity, alcohol misuse, drug misuse and severe stress, May 2010 to May 2014.* [ar-lein] Adran Gwaith a Phensiynau (Datganiadau FOI ystadegol). Ar gael yn:

rhy isel o gyfanswm nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau â gordewdra gan y bydd rhai o'r grŵp hwnnw yn dioddef o gyflyrau prif anablu eraill a gofnodwyd a allai gael ei achosi, neu ei waethygu, gan ordewdra.

Rydym yn awyddus i ddysgu mwy am sut a phryd mae pobl ar hyn o bryd yn cael mynediad at gymorth meddygol a chymorth cyflogaeth arbenigol - a sut mae'r rhain yn rhyngweithio. Er bod llawer o gyflyrau hirdymor o bosibl y gellir ei drin, mae'r system bresennol yn methu â sicrhau bod pawb yn derbyn gofal iechyd effeithiol neu gymorth cyflogaeth arbenigol. Mae hyn yn cadw llawer o bobl allan o waith – yn eu caethiwo mewn dibyniaeth diweithdra a lles. Ar gyfer tua 90,000 o bobl sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, mae eu salwch yn bennaf oherwydd eu bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol.[5] O'r rhain, mae tua 8,000 wedi bod yn hawlio budd-daliadau analluogrwydd am 5 mlynedd neu fwy.

Yr effaith ehangach

Yn ogystal â'r effeithiau ar unigolion eu hunain, mae effeithiau ehangach - rhai ohonynt yn ddinistriol. Camddefnyddio alcohol yw'r ffactor risg trydydd mwyaf ar gyfer salwch a marwolaeth, gyda 22,481 o farwolaethau cynamserol bob blwyddyn yn Lloegr yn priodoli i alcohol.[6] Mae'n niweidio teuluoedd a chymunedau: mae amcangyfrifon yn awgrymu bod y gost flynyddol i gymdeithas o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn £21 biliwn.[7]

Mae defnyddwyr sy'n dibynnol ar gyffuriau yn agored i orddosau, firysau a gludir yn y gwaed ac iechyd gwael yn gyffredinol.[8] [9] Ymhellach, mae ymchwil o 1996-2000 yn

---

https://www.gov.uk/government/publications/statistics-on-ibsda-and-esa-claimants-obesity-alcohol-or-drug-misuse-severe-stress [Mynediad 08 Gorffennaf 2015].

[5] Adran Gwaith a Phensiynau. (2015) *FOI response: IB or SDA claimants with mental and behavioural disorders by duration of claim: May 1999 to May 2014*. [ar-lein] Adran Gwaith a Phensiynau (Datganiadau FOI ystadegol DWP). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ib-or-sda-claimants-with-mental-and-behavioural-disorders-by-duration-of-claim [Mynediad 07 Gorffennaf 2015].

[6] Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2015). *Local Alcohol Profiles for England (2014-15).* [ar-lein] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Ar gael yn: http://www.lape.org.uk/ [Mynediad 10 Gorffennaf 2015].

[7] (2014) *From evidence into action: opportunities to protect and improve the nation's health*. [ar-lein] Iechyd Cyhoeddus Lloegr (Cyhoeddiadau'r porth rhif 2014404). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/366852/PHE_Priorities.pdf [Mynediad 07 Gorffennaf 2015}.

[8] Adran Iechyd (Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig (2007). *Drug Misuse and Dependence: UK Guidelines on Clinical Management.* Llundain: Adran Iechyd (Lloegr), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: http://www.nta.nhs.uk/uploads/clinical_guidelines_2007.pdf [Mynediad 07 Gorffennaf 2015].

[9] Adran Iechyd. (2011). *A summary of the health harms of drugs.* [ar-lein]: Adran Iechyd. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/a-summary-of-the-health-harms-of-drugs [Mynediad 07 Gorffennaf 2015].

awgrymu bod rhwng 200,000 a 300,000 o blant yng Nghymru a Lloegr lle mae un neu'r ddau riant â phroblemau camddefnyddio cyffuriau.[10]

Mae bod dros bwysau yn gysylltiedig â chynnydd yn y risg o glefyd cardiofasgwlaidd, diabetes, sawl math o ganser, a chyflyrau cyhyrysgerbydol, ac mae hefyd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael mewn oedolion, a stigma a bwlio yn ystod plentyndod.[11]

Yn ehangach, amcangyfrifwyd nod yfed alcohol niweidiol yn costio tua £3.5 biliwn y flwyddyn i'r GIG, £11 biliwn mewn troseddau a dros £7 biliwn i'r economi mewn cynhyrchiant a gollwyd; ac amcangyfrifir bod costau cymdeithasol yn gaeth i gyffuriau yn £15.4 biliwn.[12]

Ymhellach, mae'r Adran Iechyd yn amcangyfrif costau o fwy na £5 yr biliwn y flwyddyn i'r GIG [13] a £27 biliwn i'r economi [14] oherwydd gordewdra, gyda bron 1 o bob 4 o oedolion a tua 15% o blant yn ordew.[15]

---

[10] Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau. (2011) *Hidden Harm – full report*. [ar-lein]: Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (Adroddiad ymchwiliad ACMD). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/amcd-inquiry-hidden-harm-report-on-children-of-drug-users [Mynediad 06 gorffennaf 2015].

[11] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2014) *From evidence into action: opportunities to protect and improve the nation's health.* [ar-lein] Iechyd Cyhoeddus Lloegr (Cyhoeddiadau'r porth rhif 2014404). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/366852/PHE_Priorities.pdf [Mynediad 07 Gorffennaf 2015].

[12] Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2013). *Alcohol and drugs prevention, treatment and recovery: why invest?* [ar-lein] Iechyd Cyhoeddus Lloegr (Cyhoeddiadau'r porth rhif 2013-190). Ar gael yn: http://www.nta.nhs.uk/uploads/why-invest-2014-alcohol-and-drugs.pdf [Mynediad 03 Gorffennaf 2015].

[13] Scarborough, P. et al. (2011) The economic burden of ill-health due to diet, physical activity, smoking, alcohol and obesity in the UK: an update to 2006-7 NHS costs. *Journal of Public Health.* May 11. p.1-9.

[14] Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth. (2007)*Tackling obesities: future choices – project report (2nd edition)*. [ar-lein] Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/reducing-obesity-future-choices [Mynediad 03 Gorffennaf 2015].

[15] Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. (2014) *Health Survey for England, 2013: Health, social care and lifestyles: summary of findings.* [ar-lein] Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael yn: http://www.hscic.gov.uk/catalogue/PUB16076/HSE2013-Sum-bklet.pdf [Mynediad 03 Gorffennaf 2015].

Cwestiynau’r alwad am dystiolaeth

Mae’r tîm adolygu yn gwahodd unigolion a sefydliadau i gyflwyno tystiolaeth i lywio'r adolygiad, yn erbyn y cwestiynau canlynol. Byddem yn croesawu tystiolaeth yn enwedig gan unigolion sydd wedi dioddef o ddibyniaeth neu ordewdra ac sydd wedi dychwelyd i'r gwaith, ar yr hyn a wnaeth weithio iddynt. Os hoffech rannu eich profiadau, rhowch wybod i'r tîm adolygu yn y manylion cyswllt isod a byddwn yn gwneud trefniadau i ddilyn i fyny gyda chi.

1. Beth yw profiad pobl â gordewdra neu gyflyrau cyffuriau neu alcohol o fewn a) gwasanaethau cymorth cyflogaeth; b) gofal iechyd; ac c) y system budd-daliadau?

2. Pa wasanaethau cymorth cyflogaeth arbenigol sydd ar gael i bobl a effeithir gan fod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol, neu ordewdra? A yw hyn yn amrywio o ardal i ardal? A oes enghreifftiau o arfer da? Pa dystiolaeth sydd ar effeithiolrwydd gwasanaethau integredig?

3. Pa gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol eraill y mae’r grwpiau hyn yn debygol o wynebu? Sut mae hyn yn rhyngweithio â rhwystrau nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd i gyflogaeth? Pa gymorth neu ymyriadau ychwanegol y gallai fod eu hangen i helpu pobl oresgyn y rhwystrau hyn i gyflogaeth?

4. Beth sy'n gweithio i a) trin y rhai yr effeithir arnynt a b) helpu hwy yn ôl i’r gwaith neu eu cadw mewn gwaith? Byddem yn croesawu’n arbennig tystiolaeth gadarn o raglenni gwerthuso ffurfiol ym Mhrydain Fawr ac yn rhyngwladol.

5. Pa dystiolaeth sy’n bodoli ar effeithiolrwydd (gan gynnwys cost-effeithiolrwydd) triniaethau ac ymyriadau sy'n hwyluso dychwelyd i'r gwaith (gan gynnwys tystiolaeth o ba mor hir y disgwylir i’r rhai sy’n llwyddo i ddod o hyd i waith cyflogedig i gadw swydd)? Pa dystiolaeth sy’n bodoli ar hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau?

6. Sut mae gweithwyr iechyd proffesiynol/comisiynwyr/staff y Ganolfan Byd Gwaith a’r staff sy’n gysylltiedig â chyflogaeth ehangach yn gwneud

penderfyniadau sy'n ymwneud â'r grwpiau hyn? Sut mae'r llwybrau ac integreiddio hyn yn amrywio ar draws grwpiau ac ardaloedd o'r wlad?

7. Beth yw'r goblygiadau cyfreithiol, moesegol ac eraill o gysylltu hawliadau budd-dal â derbyn triniaeth neu gymorth priodol?

8. Sut yr effeithir ar blant a theuluoedd?

9. Beth yw barn cyflogwyr ar gefnogi'r grwpiau hyn i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith, neu o recriwtio pobl sydd â hanes o'r cyflyrau iechyd hyn? Pa help, gwasanaethau a chymorth sydd ei angen ar gyflogwyr? Byddem yn croesawu enghreifftiau lle mae cyflogwyr wedi cyflogi'n llwyddiannus pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan gaethineb neu ordewdra neu eu heffeithio'n gynt.

10. Beth yw profiad pobl sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda'r cyflyrau hyn?

11. Pwy yw'r grwpiau mwyaf 'mewn perygl' o gael eu heffeithio gan y cyflyrau hyn yn y dyfodol? Pa fesurau amddiffynnol ac ataliol y gellid eu cymryd i leihau'r risg y maent yn perthyn i batrymau o fod heb waith yn yr hirdymor?

Trefniadau’r alwad am dystiolaeth

Sut i ymateb

Dylai ymatebion gael eu cyfyngu i bum ochr o bapur A4, neu'r hyn sy'n cyfateb.

Anfonwch eich ymatebion, neu unrhyw ymholiadau am destun yr alwad hon am dystiolaeth, i:

- Post: Addiction and Obesity Independent Review Team

  Department for Work and Pensions

  Ground Floor

  Caxton House

  Tothill Street

  London

  SW1H 9NA

- E-bost: ADDICTIONANDOBESITY.REVIEW@DWP.GSI.GOV.UK

Sicrhewch fod eich ymatebion yn cyrraedd erbyn 5pm ar ddydd Gwener, 11 Medi 2015.

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn gwneud hynny fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n briodol, sut y casglwyd barn yr aelodau. Byddwn yn cydnabod eich ymateb. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ddilyn i fyny ar eich ymateb; os byddai'n well gennych i ni beidio â gwneud hynny, nodwch hyn wrth ymateb.

Fformatau amgen

Bydd y ddogfen hon ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys print bras, Braille, sain, fideo/DVD BSL, ac ‘Easy Read’ ar gais oddi wrth:

- Post: Addiction and Obesity Independent Review Team

  Department for Work and Pensions

Ground Floor

Caxton House

Tothill Street

London

SW1H 9NA

- E-bost: ADDICTIONANDOBESITY.REVIEW@DWP.GSI.GOV.UK

Byddwch yn ymwybodol gall y fformatau amgen hyn cymryd peth amser i baratoi, felly rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os oes eu hangen.

Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio

Efallai y bydd angen i’r wybodaeth a anfonwch atom gael ei throsglwyddo i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Iechyd ac adrannau a chyrff eraill y llywodraeth. Gellir ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd, ac mewn unrhyw adroddiadau adolygu dilynol.

Gall yr holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi; gall hyn gynnwys dyfynnu eich ymateb. Drwy ddarparu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, at ddibenion yr ymgynghoriad cyhoeddus, deellir eich bod yn cytuno i'w datgelu a'i chyhoeddi. Os nad yw hyn yn wir, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, a ddarperir neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau gwneud hyn.

Fodd bynnag, os yw eich gwybodaeth yn golygu data personol sensitif - er enghraifft, mae'n manylu sut mae unigolyn yn dioddef o ddibyniaeth neu ordewdra wedi dychwelyd i'r gwaith – a gallai hyn, ynghyd â gwybodaeth arall, arwain at adnabod yr unigolyn, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd gwybodus cyn datgelu a/neu gyhoeddi'r wybodaeth hon.

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

The Freedom of Information Act 2000 applies to requests that are made regarding process, reporting and functional information only, but not personal information. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol i geisiadau sy'n cael eu

gwneud ynghylch proses, adrodd a gwybodaeth ymarferol yn unig, ond nid wybodaeth bersonol. Felly ni ddylid gofyn am unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol yr unigolion o dan y Ddeddf hon, ac ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn datgelu gwybodaeth bersonol mewn ymateb i geisiadau o'r fath.

Ni all y tîm Rhyddid Gwybodaeth Ganolog cynghori ar ymarferion adolygu penodol, dim ond ar faterion Rhyddid Gwybodaeth. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gael yn: www.dwp.gov.uk/freedom-of-information

Os hoffech wneud cais Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud â'r broses ymgynghori hon, cysylltwch â:

- Post: Central FOI Team

  Department for Work and Pensions

  4th Floor

  Caxton House

  Tothill Street

  London

  SW1H 9NA

- E-bost: Freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk